**Cofnodion o gyfarfod Cyngor Cymuned Llanrug a gynhaliwyd 7:00 y.h. Nos Fawrth, 18 o Fai 2021 drwy Zoom.**

**Presennol:** Y Cynghorwyr Avril Jones (Cadeirydd), Cemlyn Jones, Richard Robinson, Dylan Jones, Alan Pritchard, Goronwy Hughes, Phillip Roberts, Haf Williams, Meirwen Lloyd, Hefin Jones, Beca Brown, Iola Parry.

**Ymddiheuriadau:** Neb

**Hefyd yn bresennol:** Y Cynghorwyr Berwyn Parry Jones (Aelod dros Cwm y Glo ar Cyngor Gwynedd a'r Cynghorydd Beca Brown (Aelod dros Llanrug ar Gyngor Gwynedd, sydd hefyd yn aelod o'r cyngor cymuned).

**Clerc:** Meirion Jones

**803. I dderbyn croeso gan y Cadeirydd**

Estynnwyd croeso cynnes i bawb i'r cyfarfod a diolchodd y cadeirydd am bresenoldeb pawb

**804. Derbyn ymddiheuriadau.**

Dim ymddiheuriadau wedi derbyn

**805. Datgan buddiant personol.**

Rhain i'w datgan fel yn briodol

**806. Cadarnhau cofnodion cyfarfod 20 Ebrill 2021**

Cadarnhawyd cofnodion cyfarfod 20 o Ebrill 2021 yn gywir ac fe'i arwyddwyd gan y cadeirydd

**807. I dderbyn unrhyw sylwadau yn codi o'r cofnodion.**

Adroddwyd gan y Cynghorydd Goronwy Hughes fod elusen y Fawnog Rydd bellach wedi trosglwyddo i nodi mae aelodau o'r cyngor cymuned ydi'r ymddiriedolwyr.

Adroddwyd gan y Cynghorydd Alan Pritchard nad oed datblygiad pellach wedi bod parthed dderbyn pris am giât ar gyfer mynediad i gae chwarae Dolafon er galluogi pram allu mynd i'r cae. Penderfynwyd rhoi hysbyseb ar Facebook i hysbysu'r gwaith

**808. I dderbyn adroddiad gan Bwyllgor y Fynwent.**

Derbyniwyd adroddiad gan y Cynghorydd Hefin Jones (Cadeirydd Pwyllgor y Fynwent) yn nodi fod y pwyllgor wedi cyfarfod ac ymysg yr eitemau a drafodwyd oedd

- Fod y ffurflenni wedi addasu ar gyfer ceisiadau ar gyfer hawl i gladdu a'r hawl i osod cofeb
- Bydd ffi o £5 i'w godi am hawl i osod cofeb ac fod hyn i fod i'w ystyried fel ffi am bermit.
- Nodwyd fod cwyn wedi dderbyn am gyflwr rhai cerrig beddi ar ôl i'r gwair gael ei dorri. Adroddwyd fod pwyllgor y fynwent wedi cyfarfod a'r torrwr gwair a'r casgliad oedd nad oedd yn bosib gwneud dim am hyn. Nodwyd mai ar ddiwedd y dydd cyfrifoldeb perchennog y garreg ydi ei glanhau a byddai yn hollol anymarferol i'r torrwr gwair lanhau pob carreg fedd yn y fynwent.
- Adroddwyd fod yr aelodau wedi cael cyfle i ddefnyddio system chwilio'r fynwent ac fod pawb wedi cael cyfle i roi unrhyw sylw neu adborth yn ôl amdano cyn ei gyhoeddi. Nodwyd fod angen symud rhai bedd mewn un bloc ac ychwanegu dwy fainc ar y map. Awgrymwyd cyn ei gyhoeddi fod materion fel hyn wedi eu datrys.

**Penderfynwyd:** Derbyn a diolch am yr adroddiad a penderfynwyd y canlynol

- Parhau a'r trefniadau presennol gyda'r drefn o dorri gwair yn y fynwent;
- Codi ffi o £5 ar gyfer pob cais am godi cofeb;
- Y clerc i gysylltu a'r cwmni i addasu'r map o'r fynwent

**809. I hysbysu'r aelodau o'r drefn a fabwysiedi'r gan y cyngor i ymdrin a beddau / cerrig beddi sydd angen sylw**

Derbyniwyd adroddiad gan y Cynghorydd Hefin Jones (Cadeirydd Pwyllgor y Fynwent) am y gwaith sydd ar y gweill yn dilyn cario allan asesiad risg yn y fynwent. Roedd yr asesiad yn cynnwys y llwybrau, waliau, offer ynghyd a cofebion.

Adroddwyd allan o 746 o gofebion mae asesiad risg wedi eu rhannu i 3 categori. Categori 1 ble mae angen sylw brys, categori 2 ble mae angen sylw o fewn y flwyddyn nesaf a categori 3 fydd ddim angen archwiliad eto am 5 mlynedd.

Nodwyd fod y niferoedd yn categori 1 yn 165 a categori 2 yn 173 yn sgil natur y gwaith ac fod gwahanol resymau pam fod cofeb neu fedd yn disgyn i'r categorïau yma, penderfynwyd ymdrin a gwaith categori 1 & 2 gyda'i gilydd. Bydd y drefn i'w fabwysiadu fel a ganlyn:

Ble mae cofebion wedi eu hadnabod yn rhydd bydd stêc bren yn cael ei glynu tu ôl i'r garreg a'i chlymu yn dyn gyda tap arbennig.

Bydd rhybudd o hyn, ynghyd ac esboniad o'r drefn yn cael ei roi ar hysbysfwrdd y fynwent wrth gychwyn y gwaith ac hefyd restr o pob bedd / cofeb sydd angen sylw ac yn gofyn i'r teulu gysylltu a'r cyngor. Argymhellir bydd y drefn yma yn parhau am tua 2 fis. Ar ôl hyn, i'r rhai sydd ddim wedi ymateb, bydd llythyr yn cael ei glymu ar y garreg yn gofyn iddynt gysylltu a'r cyngor.

Yn y cyfamser, byddai'r cyngor yn hysbysebu tendr am wneud y gwaith i gyd gyda'r bwriad o'r teuluoedd yn ad-dalu yn ôl i'r cyngor.

**Penderfynwyd:** Derbyn a diolch am yr adroddiad a cyn cychwyn y gwaith bydd y clerc yn rhannu'r holl wybodaeth gyda'r aelodau.

**810.** **I lansio system chwilio'r fynwent yn swyddogol i'r cyhoedd**

Fel a nodwyd yn eitem 808 penderfynwyd peidio a lansio'r system ar hyn o bryd hyd nes bydd addasiadau wedi eu gwneud. Bydd angen meddwl am syniadau sut i lansio'r system yn gyhoeddus

**Penderfynwyd:** Derbyn a diolch am y wybodaeth

**811.** **I dderbyn adroddiad gan Bwyllgor Hamdden a Mwynderau**

Adroddwyd gan y Cynghorydd Cemlyn Jones (Cadeirydd Pwyllgor Hamdden a Mwynderau) fod trefniadau ar y gweill i wirio'r offer yn y gampfa allanol Cwm y Glo. Nodwyd fod angen gwneud hyn yn wythnosol ac fod cofnod yn cael ei gadw o bob archwiliad. Nodwyd fod un offer allan o ddefnydd ac fod hyn wedi ei adrodd i'r cwmni ac rydym yn disgwyl iddynt ddod i gywiro'r broblem. Adroddwyd fod rota am ei greu yn hytrach na fod y gwaith yn disgyn ar un neu ychydig o bobl.

Adroddwyd yn dilyn cwyn a dyrchod daear yn cae chwarae Allt Goch a'r difrod roedd hyn yn ei wneud i offer torri gwair y caeau, fod arbenigwr wedi bod yn y cae ac fod y tyrchod daear bellach wedi eu dal.

Nodwyd nad oedd ymateb byth wedi dderbyn gan Gyngor Gwynedd parthed biniau 'sbwriel ychwanegol

Hefyd roedd cais wedi mynd fewn at Gyngor Gwynedd i ofyn am offer casglu 'sbwriel ond eto nid oes ymateb wedi ei dderbyn.

Roedd y pwyllgor yn awyddus i drefnu diwrnod casglu sbwriel ond penderfynwyd aros hyd nes byddai asesiad risg wedi dderbyn gan Cadw Cymru'n Daclus.

Adroddwyd fod siglen baban ar gae chwarae Nant y Glyn wedi ei adnewyddu.

**Penderfynwyd:** Derbyn a diolch am yr adroddiad

**812.** **I gymeradwyo trefniadau ar gyfer goleuadau Nadolig (manylion eisoes wedi cylchredeg)**

Cafwyd trafodaeth ar y mater dan sylw a nodwyd fod y cyngor eisoes wedi penderfynu symud ymlaen ond fod un neu ddau o faterion angen sylw pellach.

**Penderfynwyd:** Y pwyllgor cyllid i ymchwilio fewn i'r materion yma

**813.** **I dderbyn adroddiad gan y Pwyllgor Bwyd.**

Adroddwyd fod y pwyllgor wedi cyfarfod ec eu bod wedi cyfethol aelod o'r cyhoedd i eistedd ar y pwyllgor.

Fod ceisiadau am grantiau wedi eu trafod a'r clerc i ymchwilio i ffynonellau o grantiau ar gyfer gallu prynu mwy o fwydydd.

Adroddwyd fod y math o fwyd bellach wedi newid ac ein bod yn cael bwyd ble mae'n bosib ei gadw yn yr oergell ac fod yr oergell wedi bod o fydd.

Ymchwilio i fewn i'r posibilrwydd o wneud cais am grant ar gyfer tuniau bwyd

Nodwyd fod un palet o wahanol duniau wedi ei dderbyn ac fe'i cludwyd i ysgol Cwm gan y Cynghorydd Berwyn Parry Jones a'r clerc

**Penderfynwyd:** Derbyn a diolch am yr adroddiad

**814. I dderbyn adroddiad gan y Cynghorydd Berwyn Parry Jones aelod dros Cwm y Glo ar Gyngor Gwynedd.**

**Cyngor Gwynedd**

**Premiwm Trethi ar dai gwag hefo gwaith sylweddol angen ei wneud**

Fe gofiwch fod y trethi ar ail gartrefi a tai gwag wedi codi 100%, mae eithriad i hyn os oes gwaith atgyweirio sylweddol angen ei wneud, mae posib cael eithriad allan o dalu am 12 mis ond yn anffodus mae hyn yn golygu fod rhai teuluoedd lleol sydd yn gwneud gwaith sylweddol ar eu tai yn cael eu dal allan os ydynt yn methu gorffen y gwaith o fewn y 12 mis. Yn anffodus, mae'r eithriad statudol hwn wedi cael ei gyfyngu i 12 mis hyd yn oed os nad yw'r gwaith atgyweirio wedi cael ei gwblhau.

Mae y cyngor wedi penderfynu fel rhan o'r Cynllun Gweithredu Tai newydd, sef cynllun 3e, i rhoi eithriad treth Cyngor am flwyddyn ychwanegol, ar ôl y 12 mis cyntaf, i hyd at 120 o unigolion sy'n brynwyr tro cyntaf ac wedi prynu tŷ gwag sydd angen gwaith adnewyddu i'w wneud yn addas i fyw ynddo, er mwyn caniatáu cyfnod digonol iddynt gwblhau'r gwaith adnewyddu angenrheidiol i ddod a'r tŷ yn ôl i ddefnydd.

Golyga hyn y bydd eithriad treth Cyngor ar dai gwag i brynwyr tro cyntaf am hyd at ddwy flynedd er mwyn caniatáu iddynt gwblhau gwaith adnewyddu, ac ariennir y bwlch yma gan y Premiwm Treth Cyngor sy'n cael ei osod ar ail-gartrefi eraill. Hefyd (eto yn y Cynllun Gweithredu Tai ac wedi'i ariannu o'r Premiwm Treth Cyngor), mae estyniad tebyg ar gael i unrhyw brynwr tŷ lle mae'r cyfnod 12 mis safonol eisoes wedi'i hawlio gan gyn-berchennog.

**Cwmni Byw yn Iach**

Falch o adrodd fod y canolfannau yn ôl yn agored rŵan. Gweithio rownd y GIG, sydd wedi bod yn defnyddio y canolfannau i frechu. Tua 12,000 wedi cael ei brechu yn y canolfannau yn barod.

**Yn Lleol**

**Llwybr o Bwlch i lawr i Carreg Fran**

Wedi trefnu hefo'r swyddog Llwybrau i gerdded y llwybr, mae posib cael mynediad o Carreg Fran rwan, hefyd mae'n bosib dod lawr tipyn o'r ffordd o Bwlch, ond mae cwrs y llwybr yn mynd yn dipyn yn anoddach ei ffeindio mewn mannau yn y canol. Hefyd mae rhai rhwystrau mewn mannau. Mae'n anodd ffeindio y llwybr cywir. Mae'r swyddogion yn mynd i gael gair hefo'r perchnogion a gwirio y mapiau i weld yn lle yn union mae'r

llwybr i fod. Wedyn gobeithio fydd cyfle, hefo gwirfoddolwyr, i glirio tipyn ond fydd hynny ddim yn fuan mae'n siŵr mae yn yr Hydref bydd hyn yn digwydd.

**Lôn y Fynwent**

Rwyf wedi derbyn llawer o gwynion ynglŷn â cyflwr y ffordd i lawr i'r fynwent. Rwyf wedi holi y swyddogion pryd fydd y ffordd yn cael ei wella, ddim wedi cael ateb eto.

Penderfynwyd: Derbyn a diolch am yr adroddiad

**815. I dderbyn adroddiad gan y Cynghorydd Beca Brown, aelod dros Llanrug ar Gyngor Gwynedd**

**O 'r Cyngor**

Bu cyfarfodydd arbennig ac arferol o'r cyngor llawn ac roedd nifer o bendodiadau gan gynnwys Dafydd Gibbard o Lanrug fel y Prif Weithredwr newydd; y Cyng. Seimon Glyn fel Cadeirydd y Cyngor, yn cymryd drosodd gan y Cyng. Edgar Owen; a'r Cyng. Elwyn Jones fel Is-Gadeirydd.

Cafwyd cyfle i ymuno â'r Cyng. Catrin Wager, Aelod Cabinet yr adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol, i gael clywed am gynlluniau'r adran i ymgynghori â'r cyhoedd am eu blaenoriaethau ym maes cymunedau glân a thaclus. Clywsom hefyd am y cynllun blodau gwyllt cynhenid a fydd yn fodd o annog tyfiant blodau gwyllt wrth ochr ein lonydd ble fo'n briodol a diogel. Annogwyd pawb i gymryd rhan yn yr ymgynghoriad cwn a baw cwn sydd yn agored ar hyn o bryd.

Bu nifer i ohonom ymgasglu'n ddiogel y tu allan i siambr y cyngor er mwyn cyd-sefyll â phobl Palesteina.

Bu Gweithdy Craffu Gofal ble roedd blaenoriaethau craffu y cyngor ym maes gofal yn cael eu pennu am y cyfnod nesaf. Cafodd ystod eang o flaenoriaethau amrywiol eu nodi, gyda sylw arbennig i faterion yn ymwneud â tai a iechyd meddwl yn sgil y pandemig.
Mynychais gyfarfod o'r Pwyllgor Iaith ble y trafodwyd cynllun peilot y cyngor a fydd yn gwahodd adrannau'r cyngor i fanylu ar eu defnydd o'r Gymraeg yn y gwaith gan geisio hyrwyddo ac annog defnydd o'r Gymraeg ymhlith siaradwyr mamiaith a siaradwyr newydd fel ei gilydd. Trafodwyd hefyd bolisi trosglwyddiad iaith Llywodraeth Cymru, a nodwyd mai doeth fyddai aros tan i'r Sensws adrodd yn ôl cyn pennu polisi pendant.

**Yn Lleol.**

Mae pryderon yn cael eu mynegi yn gyson am gyflwr rhai o'r llwybrau yma yn Llanrug sydd yn dueddol o or-lifo pan mae cyfnod o law. Rwyf wedi codi hyn gyda'r swyddogion perthnasol.
Nodwyd pryder hefyd am 'pot holes' yng nghefn Rhos Rug ac am y broblem baw cwn a baw ceffyl ar hyd palmentydd a llwybrau'r ardal.

**Penderfynwyd:** Derbyn a Diolch am yr adroddiad

**816. I dderbyn adroddiad gan gynrychiolydd y cyngor ar Fwrdd Llywodraethwyr Ysgol Gynradd Llanrug**

Adroddwyd fod un cyfarfod wedi bod ond nad oedd dim i'w adrodd o'r cyfarfod

**817. Adroddiad blynyddol y cyngor ar gyfer 2020 / 2021**

Fe drafodwyd yr adroddiad blynyddol a penderfynwyd i geisio anelu i'w gael allan erbyn mis Awst

**818. Cofnodion cyfarfod y cyngor yn Saesneg fod y cyngor yn mabwysiadu trefn o ddefnyddio yr enwau Cymraeg yn unig Caergybi, Cyffordd Llandudno, Y Feri Isaf, Mynwent y Crynwyr**.

Fod y cyngor yn mabwysiadu polisi o ddefnyddio enwau llefydd yn y Gymraeg mewn gohebiaeth Saesneg – e.e. defnyddio Caergybi yn lle 'Holyhead'.

**Penderfynwyd:** Defnyddio enwau llefydd yn y Gymraeg ble'n bosib

**819. Ceisiadau Cynllunio – am fwy o fanylion am y ceisiadau yma, dilynwch y linc yma ble gellir chwilio am y cais drwy ddyfynnu 'Rhif y cais'.**
**https://amg.gwynedd.llyw.cymru/planning/index.html?fa=search**

a) **Rhif y Cais:** C21/0386/23/DT
**Math o Gais:** Cais Deiliaid Tŷ
**Bwriad:** Cais ar gyfer codi estyniad deulawr yn nghefn yr eiddo
**Ymgeisydd:** Ms Carol Griffiths
**Cyfeiriad:** Fron Helyg Lôn Groes, Llanrug, Caernarfon, Gwynedd, LL55 4AF
**Cyfeirnod Grid:** 253738.71, 363699.38
**Ward:** Llanrug
**Cymuned:** Llanrug

**Penderfynwyd:** Dim gwrthwynebiad I'r cais

b) **Rhif y Cais:** C21/0326/23/LL
**Math o Gais:** Cais Llawn
**Bwriad:** Cais ar gyfer dymchwel modurdy breswyl a chodi modurdy a lolfa haul yn ei le
**Ymgeisydd:** Mr and Mrs Darren Williams
**Cyfeiriad:** Angorfa, 5 Tai Rhythallt, Llanrug, Caernarfon, Gwynedd, LL55 4AT
**Cyfeirnod Grid:** 254286.03, 363574.8
**Ward:** Llanrug
**Cymuned:** Llanrug

**Penderfynwyd:** Dim gwrthwynebiad i'r cais

Daeth y cyfarfod i ben am 21:10